# ATODLEN 4

# GWEITHREDU CYNIGION I NEWID CATEGORI YSGOL

## **RHAN 3**

## TROSGLWYDDO TIR

*Newid o ysgol wirfoddol a gynorthwyir i ysgol gymunedol*

20 (1) Mae is-baragraffau (2) a (3) yn gymwys pan fo'n ofynnol o dan adran 55(2) i weithredu cynigion bod ysgol wirfoddol a gynorthwyir sy'n aelod o'r grwp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto yn dod yn ysgol gymunedol.

(2) Mae unrhyw dir wedi ei gyllido'n gyhoeddus, a oedd, yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddal gan y corff sefydledig at ddibenion yr ysgolion yn y grwp ac yn cael ei ddefnyddio at ddibenion yr ysgol wirfoddol a gynorthwyir, ar y dyddiad hwnnw, i'w drosglwyddo i'r awdurdod lleol ac i'w freinio ynddo.

(3) Mae unrhyw dir arall, a oedd, yn union cyn y dyddiad hwnnw, yn cael ei ddal gan y corff sefydledig at ddibenion yr ysgolion yn y grwp ac yn cael ei ddefnyddio at ddibenion yr ysgol wirfoddol a gynorthwyir i'w drosglwyddo i'r awdurdod lleol, ac i'w freinio ynddo, yn unol â chytundeb trosglwyddo.